



## Cyngor Tref Aberteifi

### Adroddiad Ymgynghori Gardd Gymunedol

#### Cyflwyniad.

Cynhaliwyd ymgynghoriad i asesu diddordeb y gymuned a chasglu adborth ar yr awydd am ardd gymunedol, ar ddarn o dir gwastraff y tu ôl i dai Rhos y Dre yn Aberteifi. Dosbarthwyd cyfanswm o 125 o lythyrau ymgynghori i drigolion lleol.

Fel y gwelwch o'r siart, mae cefnogaeth enfawr yn y gymuned leol i ardd gymunedol. Dangosir y nodweddion y gofynnwyd amdanynt fwyaf yn yr ail siart ond y ceisiadau llai oedd:

Hoffai chwech o bobl weld nodwedd ddŵr yn cael ei chynnwys;

Roedd chwech o bobl yn dymuno cadw'r maes parcio;

Gofynnodd tri o bobl am fin sbwriel;

Roedd dau berson eisiau bwydwyr adar;

Gofynnodd dau berson am sied i storio offer;

Gofynnodd dau berson am gyfranogiad yr ysgol;

Roedd dau berson eisiau codi ffens newydd;

Roedd ceisiadau unigol yn cynnwys gwesty chwilog, man compostio, tŷ gwydr a man ymarfer cŵn.

Roedd un person yn dymuno i'r ardd ymwneud â thyfu bwyd a rhannu'r cynnyrch;

Nid oedd gan 82.7% o'r ymatebwyr unrhyw bryderon ynglŷn â'r ardd. Fodd bynnag, roedd saith o bobl yn poeni am fandaliaeth, chwech yn poeni am ymddygiad gwrthgymdeithasol (yfed a chyffuriau), roedd dau yn meddwl y byddai pobl yn colli diddordeb. Roedd pryderon unigol yn cynnwys costau cynnal a chadw, baw cŵn, cynaliadwyedd a'r lleoliad anghywir ar gyfer prosiect o'r fath.

Ymrwymodd 37 o bobl i ofalu am yr ardd yn eu hymatebion.



## Cardigan Town Council

### Community Garden Consultation Report

#### Introduction.

A consultation was conducted to assess community interest and gather feedback on the appetite for a community garden, on a waste stretch of land behind Rhos y Dre houses in Cardigan. A total of 125 letters of consultation were distributed to local residents.

As you can see from the pie chart there is overwhelming support in the local community for a community garden. The most requested features are shown in the second chart but the smaller requests were:

Six people would like to see a water feature included;

Six people wished to retain the parking area;

Three people asked for a rubbish bin;

Two people wanted bird feeders;

Two people asked for a shed to store equipment;

Two people asked for school involvement;

Two people wanted a new boundary fence erected;

Individual requests included a bug hotel, compost area, green house and a dog exercise area.


One person wished the garden to be about growing food and sharing the produce;

82.7% of the respondents did not have any concerns regarding the garden. However, seven people were worried about vandalism, six were worried about anti-social behaviour (drinking and drugs), two thought that people would lose interest. Individual concerns included the upkeep costs, dog mess, sustainability and the wrong location for such a project.

37 people committed to actively looking after the garden in their responses.



## Community Garden Consultation Responses





### Most Requested Features for the Community Garden

